Flintshire Local Service Board

# Employers' Promise

## What is the Employers Promise?

A standard for being a Model Employer in Flintshire.

## What is our vision?

To make Flintshire a county with great opportunities, prospects and employment.

## What do we want to achieve?

As employers we are committed to establish a skilled workforce to meet the challenges of the future. We will:

1. Aspire to be employers of choice.
2. Develop, promote and support a range of lifelong learning opportunities for people at work; at schools, college and universities; and in our communities.
3. Develop, promote and support a broader range of education, employment and training opportunities for all people, with young people aged 16 to 24 years a priority.

This will be achieved by:

- Leading by example as employers in Flintshire.
- All LSB Partners committing to the Standard.
- Developing skills of our workforce.
- Encouraging more apprenticeships and work placement opportunities in the County.
- Providing opportunities for young people to enter the workforce.
- Giving people the opportunity to re-train or re-enter the workforce.
- Growing the skills of the local community to produce the workforce of the future.

## What we are going to do

We will develop new ways of delivering public services that have the potential to make a difference to peoples' lives at the same time as making better use of public money. This will be achieved in partnership with our public, private and voluntary sector partners.

## Who will we involve?

All LSB Partners are committed to this Promise. Furthermore, our ambition is to encourage all our public, private and voluntary sector partners to support the goals associated with this Promise.

## In partnership with other organisations, we will develop new frameworks for the following:

- Basic Skills
  We will ensure that our employees have high levels of literacy and numeracy.

- Employee Development
  We will ensure that our employees are developed in their role with on and off the job quality training.

- Workforce Planning
  We will develop our employees to meet our current and future needs. This will include a renewed approach to work experience and apprenticeships.

  We will provide opportunities for progression and career opportunities.

- Reduce Inequalities in Employment
  We will recruit fairly and equitably where possible from within the local labour market in Flintshire.

  We will identify and address any inequalities between different protected characteristics

- Wellbeing
  The health and wellbeing of our employees will be protected and promoted in the workplace.

## How are we going to do this?

All LSB partners will maximise opportunities to support the EET agenda including:

- Increasing the number and range of work based learning opportunities available, for example, apprenticeships, industry / organisation based academies, training, work experience.

- Development of an Entrepreneurship Programme including support for Enterprise Clubs through, for example, mentoring; training, and; business and financial planning.

- Development of an Employability Programme including work Clubs, work experience including volunteering, DWP schemes, etc.

- Contributing to a broader range of Pathways to employment by maximising capacity amongst agencies, accessing national and local programmes and securing funding opportunities, making an impact on unemployment.

- Developing local labour market information to support public and private sector business planning in relation to education, training, qualifications and vocational skills.

- Developing more innovative approaches to workforce planning.

# Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint

# Addewid Cyflogwyr

## Beth Yw'r Addewid Cyflogwyr?

Safon ar gyfer bod yn Gyflogwr Model yn Sir y Fflint.

## Beth Yw Ein Gweledigaeth?

Gwneud Sir y Fflint yn sir sydd â chyfleoedd, rhagolygon a swyddi ardderchog.

## Beth Ydym Ni Am Ei Gyflawni?

Fel cyflogwyr, rydym ni'n ymrwymedig i sefydlu gweithlu medrus er mwyn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Byddwn yn:

1. Anelu at fod yn gyflogwyr heb eu hail.
2. Datblygu, hybu a chefnogi ystod o gyfleoedd dysgu gydol oes i bobl mewn gweithleoedd; mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion; ac yn ein cymunedau.
3. Datblygu, hybu a chefnogi ystod ehangach o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i bawb, gan roi blaenoriaeth i bobl ifanc 16 i 24 oed.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

- Arwain trwy esiampl fel cyflogwyr yn Sir y Fflint.
- Holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ymrwymo i'r Safon.
- Datblygu sgiliau ein gweithlu.
- Annog mwy o brentisiaethau a chyfleoedd am leoliad gwaith yn y Sir.
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymuno â'r gweithlu.
- Rhoi cyfle i bobl ailhyfforddi neu ailymuno â'r gweithlu.
- Cynyddu sgiliau'r gymuned leol er mwyn creu gweithlu'r dyfodol.

## Yr Hyn Rydym Ni'n Mynd I'w Wneud

Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a allai wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar yr un pryd â gwneud defnydd gwell o arian cyhoeddus. Bydd hyn yn cael ei gyflawni ar y cyd â'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

## Pwy Fyddwn Ni'n ei Gynnwys?

Mae holl Bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ymrwymo i'r Addewid hwn. Yn ogystal, ein huchelgais yw annog ein holl bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gefnogi'r nodau sy'n gysylltiedig â'r Addewid hwn.

## Mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, byddwn yn datblygu fframweithiau newydd ar gyfer y canlynol:

- Sgiliau Sylfaenol
  Byddwn yn sicrhau bod gan ein gweithwyr lefel uchel o lythrennedd a rhifedd.

- Datblygu Gweithwyr
  Byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr yn cael eu datblygu yn eu rôl trwy hyfforddiant o ansawdd da wrth eu gwaith a'r tu allan i'w gwaith training.

- Cynllunio'r Gweithlu
  Byddwn yn datblygu ein gweithwyr er mwyn bodloni ein hanghenion yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys ymagwedd o'r newydd at brofiad gwaith a phrentisiaethau.

  Byddwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd a chamu ymlaen.

- Lleihau Anghydraddoldebau Mewn Cyflogaeth
  Byddwn yn recriwtio'n deg pan fo'n bosibl o fewn y farchnad lafur leol yn Sir y Fflint.

  Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau rhwng gwahanol nodweddion gwarchodedig

- Lles
  Byddwn yn hybu a diogelu iechyd a lles ein gweithwyr yn y gweithle.

## Sut ydym ni'n mynd i wneud hyn?

Bydd holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynyddu'r cyfleoedd i gefnogi'r agenda addysg, cyflogaeth a hyfforddiant cymaint â phosibl, gan gynnwys:

- Cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael, er enghraifft, prentisiaethau, academïau seiliedig ar ddiwydiant / sefydliad, hyfforddiant, profiad gwaith.

- Datblygu Rhaglen Entrepreneuriaeth sy'n cynnwys cymorth ar gyfer Clybiau Menter trwy, er enghraifft, fentora, hyfforddiant a chynllunio busnes ac ariannol.

- Datblygu Rhaglen Gyflogadwyedd sy'n cynnwys clybiau gwaith a phrofiad gwaith megis gwirfoddoli, cynlluniau'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac ati.

- Cyfrannu at ystod ehangach o Lwybrau i gyflogaeth trwy gynyddu capasiti cymaint â phosibl ymhlith asiantaethau, cael mynediad at raglenni cenedlaethol a lleol a sicrhau cyfleoedd ariannu, gan gael effaith ar ddiweithdra.

- Datblygu gwybodaeth am y farchnad lafur leol i gefnogi cynllunio busnes yn y sectorau cyhoeddus a phreifat o ran addysg, hyfforddiant, cymwysterau a sgiliau galwedigaethol.

- Datblygu dulliau mwy arloesol o gynllunio'r gweithlu.